Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

WISERD

# Polisi a Gwleidyddiaeth Cymru mewn Cyfnod Digynsail

**Dydd Gwener 24ain Mai 2019**
**Ystafell Y Mall, Creu Taliesin,**
**Prifysgol Cymru**

E·S·R·C Economic & Social Research Council

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

#unprecedentedwales
@WCfPP
@WISERDNews

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

WISERD

# Agenda

| | |
|---|---|
| 10.00 – 10.30 | **Cyrraedd a chofrestru** |
| 10.30 – 12.00 | **Panel Un: Gwybodaeth a thystiolaeth yng Nghymru a'i rôl wrth greu polisïau** |

***Trafodwraig: Anna Nicholl (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)***

**Michelle Black (Prifysgol Sheffield), Claire Beynon (Iechyd Cyhoeddus Cymru), ac eraill:** 'Dysgu ar draws y DU: Adolygiad o systemau iechyd cyhoeddus ac agweddau polisi at ddatblygiad cynnar plant ers datganoli gwleidyddol'

**Paul Worthington a Helen Hodges (Prifysgol Caerdydd):** 'Natur a graddfa'r ddyled i wasanaethau cyhoeddus a safbwynt dinasyddion: Tlodi o ran tystiolaeth?'

**Nerys Edmonds a Liz Green (Iechyd Cyhoeddus Cymru):** 'Cyfuno tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg er mwyn hybu a diogelu iechyd a llesiant mewn cyfnod o ansicrwydd: Asesiad o Effaith Brexit ar Iechyd yng Nghymru'

**Helen Hodges (Prifysgol Caerdydd**): 'A oes gennym y data cywir i ddatrys y broblem? Amrywiadau yng nghyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru'

| | |
|---|---|
| 12.00 – 12.45 | **Datganoli a Brexit - 'sgwrs' gyda Jo Hunt a Hugh Rawlings** |

Mae **Jo Hunt** yn Athro'r Gyfraith yn Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd. Mae'n ymchwilio i agweddau ar ranbartholiaeth a datganoli yn yr

Undeb Ewropeaidd a chafodd ei phenodi fel Uwch Gymrawd o dan Gyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) y DU mewn menter Newid Ewrop.

**Hugh Rawlings** yw Cyfarwyddwr Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol yn Llywodraeth Cymru. Mae wedi gweithio ar faterion datganoli ers 1997, gan gynnwys y materion polisi hynny sydd wedi'u hadlewyrchu yn Neddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 a Deddf Cymru 2017, yn ogystal ag agweddau datganoli deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

---

12.45 – 13.30 **Egwyl cinio a chyflwyniadau Poster (darperir cinio)**

---

**Esther Dorado Ladera (Academia Europaea):** 'Gwneud synnwyr o wyddoniaeth mewn amodau cymhleth ac ansicr'

**Sara O'Shea (Prifysgol Abertawe):** 'Syniadau mawr mewn micro bentref: Gwerthuso prosiect tai â chymorth pobl ifanc yn Llanelli'

**Suzanna Nesom (Prifysgol Caerdydd):** 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a chreu cynlluniau llesiant'

---

13.30 – 15.00 **Panel Dau: Damcaniaethau a dulliau wrth newid polisi: Safbwynt Cymru a datganoli**

---

***Trafodwr: James Downe (Prifysgol Caerdydd)***

**David Beel (Prifysgol Metropolitan Manceinion), Martin Jones (Prifysgol Swydd Stafford), ac Ian Rees-Jones (Prifysgol Caerdydd):** 'Terfynau Dinas-Ranbarthau: Cwestiynu naratifau twf lleol mewn dinasoedd maint canolig yn y DU'

**Elizabeth Woodcock (Prifysgol Bangor):** ‘Ymchwil gydweithredol, integreiddio buddiannau a chyflawni polisïau traws-sectoraidd’

**Jonathan Webb (Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus):** ‘Clymbleidiau eiriolaeth a newid polisi mewn cyd-destunau datganoledig: Beth sy’n cynrychioli newid effeithiol ar draws systemau gwleidyddol a pholisi?

**Daniel Roberts (Prifysgol Abertawe):** ‘Polisi entrepreneuriaeth yng Nghymru’

---

15.00 – 15.15 **Egwyl**

---

15.15 – 16.45 **Panel Tri: Dyfodol polisi a gwleidyddiaeth yng Nghymru**

---

***Trafodwr: Leighton Andrews (Prifysgol Caerdydd)***

**Leighton Andrews (Prifysgol Caerdydd):** ‘Croeso i Ukania: pryfociad’

**Bob Smith (Prifysgol Caerdydd):** ‘Darparu tai fforddiadwy yng Nghymru mewn cyfnodau heriol’

**Rachel Minto ac Alison Parken (Prifysgol Caerdydd):** ‘Beth a wnawn heb yr UE? Hybu cydraddoldeb yng Nghymru ar ôl datganoli’

**Ian Stafford (Prifysgol Caerdydd):** ‘Erioed wedi bod mor agos, ond cyn belled i ffwrdd ag erioed? Archwilio’r cysyniadau o ymddiriedaeth a thryloywder yng Nghymru’

# Trosolwg o'r Gynhadledd

Mae cyni, datganoli rhagor o bwerau, materion sy'n cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio a newid yn yr hinsawdd, ac wrth gwrs Brexit, yn amodau a digwyddiadau pwysig sydd wedi arwain at ansicrwydd, ansefydlogrwydd a sefyllfa ddigynsail o ran polisi a gwleidyddiaeth yng Nghymru. Mae'r materion hyn yn effeithio ar sut a pham y mae polisïau'n cael eu creu a gwasanaethau'n cael eu darparu. Mae hyn yn gyfle hefyd i adlewyrchu a dadansoddi, lle mae rhanddeiliaid amrywiol – gweinidogion, gweision sifil, gwleidyddion, gweithwyr proffesiynol, academyddion a dinasyddion – yn adolygu ac ailddiffinio diben a chanlyniadau polisi a gwleidyddiaeth yng Nghymru.

Mae'r digwyddiad hwn yn dod ag academyddion ar bob cam o'u gyrfa at ei gilydd gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a chymdeithas sifil i drafod y cwestiynau hyn, arferion presennol a rhai'r dyfodol a'r cyfleoedd ar gyfer polisi a gwleidyddiaeth yng Nghymru. Mae'r diwrnod wedi'i drefnu'n dair sesiwn panel gyda chyflwyniadau papur (10-15 munud ar gyfer pob cyflwyniad) wedi'u dilyn gan drafodaeth 10-15 munud gan drafodwr, gyda chwestiynau ac atebion o'r ystafell. Bydd sesiwn 'sgwrsio' amser cinio gyda Jo Hunt a Hugh Rawlings a fydd yn trafod Brexit, datganoli pwerau newydd i Gymru a rôl rhanddeiliaid polisi amrywiol yng Nghymru – y llywodraeth, y pwerau deddfwriaethol, cymdeithas sifil a phrifysgolion.

Ymunwch â'r drafodaeth ar Twitter gan ddefnyddio **#unprecedentedwales.**

Dilynwch CPCC ar Twitter: **@WCfPP**

Dilynwch WISERD ar Twitter: **@WISERDNews**

# Crynodebau Papur

**Dysgu ar draws y DU: Adolygiad o systemau iechyd cyhoeddus ac agweddau polisi at ddatblygiad cynnar plant ers y datganoli gwleidyddol**

*Michelle Black, Amy Barnes, Susan Baxter (Prifysgol Sheffield), Claire Beynon (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Mark Clowes (Prifysgol Sheffield), Mary Dallat (Iechyd Cyhoeddus Gogledd Iwerddon), Alisha Davies (Prifysgol Caerdydd), Andrew Furber (Iechyd Cyhoeddus Lloegr), Elizabeth Goyder (Prifysgol Sheffield), Catherine Jeffery (NHS Borders), Evangelos Kritsotakis, Mark Strong (Prifysgol Sheffield)*

Cefndir: Mae rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant yn hollbwysig ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant yn y dyfodol. Mae datganoli gwleidyddol yn y DU yn darparu arbrawf naturiol i archwilio sut mae systemau iechyd y cyhoedd yn cyfrannu at ganlyniadau datblygiadol cynnar plant ar draws pedair gwlad.

Dull: Defnyddiwyd adolygiad systemataidd o lenyddiaeth a mewnbwn gan grŵp o randdeiliaid i ddatblygu fframwaith systemau iechyd y cyhoedd. Yna roedd y fframwaith hwn yn hysbysu dadansoddiad o ddulliau gweithredu polisi iechyd y cyhoedd ar gyfer datblygiad cynnar plant.

Canlyniadau: Roedd 118 o astudiaethau yn bodloni'r meini prawf i gael eu cynnwys. Roedd pob un o'r polisïau cenedlaethol yn hyrwyddo 'dull atal' i ddatblygiad cynnar plant. Roedd y ffactorau gwleidyddol yn llunio gwahaniaeth, gydag amrywiaeth yn y cysyniadau am ddatblygiadau plant ('paratoi ar gyfer bywyd' yn hytrach na 'pharatoi ar gyfer yr ysgol') a'r ddarpariaeth cyn-ysgol ('hawl cyffredinol' neu 'fudd a enillwyd'). Nodwyd tlodi a darparu adnoddau fel ffactorau allweddol y system, a oedd yn dylanwadu ar ganlyniadau. Mae Cymru a'r Alban wedi deddfu deddfwriaeth benodol sy'n canolbwyntio ar benderfynyddion ehangach. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i gyfyngu gan raddau'r pwerau datganoledig.

Casgliad: Mae’r fframwaith systemau yn egluro natur gymhleth polisïau sy’n gysylltiedig â datblygiad cynnar plant. Mae’r polisïau datblygiad plant gwahanol yn y pedair gwlad ac, yn benodol, y gydnabyddiaeth benodol ym mholisïau Cymru a’r Alban o benderfynyddion ehangach, yn creu’r cyfle i’r pwnc hwn fod yn faes olrhain er mwyn cymharu systemau iechyd y cyhoedd y DU yn y tymor hwy.

**Natur a graddfa’r ddyled i wasanaethau cyhoeddus a safbwynt dinasyddion: Tlodi o ran tystiolaeth?**

*Paul Worthington a Helen Hodges, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Caerdydd*

Cawsom ein comisiynu i gynhyrchu adolygiad o dystiolaeth a oedd yn ystyried sut y gallai gwasanaethau cyhoeddus a’r partneriaid sydd wedi’u contractio ganddynt ymateb yn well i ddyledwyr sy’n agored i niwed. Yn ogystal â mesur graddfa a natur y problemau, yn benodol y rhai sy’n gysylltiedig â’r dreth gyngor ac ôl-ddyledion rhent, a’r dulliau ar gyfer mynd i’r afael â’r rhain, cafwyd ffocws ar ddealltwriaeth profiad dinasyddion o ddyled. Ystyriwyd y byddai hyn yn cyflwyno profiadau a chyd-destun go iawn i’r mater.

Bu i ni adolygu mwy na 60 darn o dystiolaeth gan y llywodraeth, rheoleiddwyr, melinau trafod, academyddion, sefydliadau dielw a sefydliadau er elw. Roedd hyn yn cynnwys astudiaethau achos o ddulliau arloesol o gasglu dyledion a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a darparwyr tai a allai fod yn berthnasol yng Nghymru.

Roedd hyn yn cyflwyno heriau tystiolaethol. Mae tystiolaeth glir o raddau ac effaith dyled ar draws y DU; mae tua 67,600 o aelwydydd yng Nghymru wedi

profi problem o ran dyledion, ond bydd pob profiad unigol neu aelwyd yn wahanol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), 2018; StepChange, 2015, 2018; Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2017). Mae astudiaethau yn dangos bod dyled, a phwysau ariannol yn creu gorbryder ac ansicrwydd parhaus i lawer o bobl, sy'n cael ei ddwysáu yn aml gan ansicrwydd incwm, diweithdra neu wendidau eraill (Greenall a Prosser, 2017; Shelter Cymru 2016; StepChange, 2015; Y Gymdeithas Blant, 2014 a 2015; Hartfree a Collard, 2014). Maent yn adrodd ar brofiadau unigolion ac aelwydydd wrth iddynt geisio rheoli'r heriau hyn a'u perthynas ag awdurdodau lleol a darparwyr tai.

Mae'r storïau yn bersonol a phwerus. Fodd bynnag, yr oeddem yn ystyriol o'r ffaith bod llawer wedi'u cynhyrchu fel llenyddiaeth ymgyrchu yn hytrach nac ar gyfer cyhoeddiadau a fyddai'n cael eu hadolygu gan gymheiriaid. Yn yr un modd, mae'n bosibl na fydd dadansoddiadau o waith achos gan rai asiantaethau yn gyffredinol ac yn ddata o Gymru yn benodol – ac er eu bod yn ddefnyddiol – roeddent yn gyfyngedig (Protheroe et al, 2017).

Cafwyd rhywfaint o arfer da cyhoeddedig gan awdurdodau lleol a darparwyr tai ond anaml y mae tystiolaeth yn cael ei hadolygu a'i hadrodd yn systemataidd drwy lenyddiaeth gan gynnwys adroddiadau blynyddol (HQN Cyf., 2018).

Bydd y sesiwn hon yn crynhoi'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gadarn a chyflawni gofynion llunwyr polisi.

**Cyfuno tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg er mwyn hybu a diogelu iechyd a llesiant mewn cyfnod o ansicrwydd: Asesiad o Effaith Brexit ar Iechyd yng Nghymru'**

*Nerys Edmonds a Liz Green, Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru*

Bydd Asesu'r Effaith ar Iechyd yn dod yn statudol yng Nghymru fel rhan o gyflwyno Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Gall Asesu'r Effaith ar Iechyd o effeithiau posibl iechyd a llesiant polisi fod yn broses ddefnyddiol ac addysgiadol, a all gynorthwyo llunwyr polisi i wneud penderfyniadau a chamau gweithredu priodol ar sail tystiolaeth. Cynhaliwyd yr asesiad hwn mewn cyfnod o ansicrwydd gwleidyddol a thrafodaeth ar natur a chanlyniadau posibl y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit). Mae'n ddadansoddiad unigryw, sy'n asesu goblygiadau Brexit o safbwynt Cymreig, gan ddefnyddio 'chwyddwydr' iechyd y cyhoedd o benderfynyddion cymdeithasol iechyd a llesiant y boblogaeth.

Nod: Asesu effaith, graddau a natur bosibl Brexit ar iechyd a llesiant yng Nghymru, a hysbysu penderfyniadau, cynllunio a llunio polisi.

Dulliau: Cynhaliwyd asesiad cynhwysfawr i Asesu'r Effaith ar Iechyd dros gyfnod o chwe mis yn 2018/19, wedi'i lywio gan Grŵp Cynghori Strategol. Roedd y dulliau'n cynnwys; adolygiad o lenyddiaeth; gweithdy rhanddeiliaid; cyfweliadau gydag arweinwyr polisi, proffil iechyd cymunedol ac adroddiad gyda thystiolaeth wedi'i chyfuno.

Canfyddiadau: Cytundebau masnach, effeithiau economaidd, perthnasau'n newid gydag asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd, ansicrwydd a cholli aliniad rheoleiddiol oedd rhai o'r llwybrau allweddol a allai arwain at effeithiau ar iechyd. Ymhlith yr effeithiau posibl roedd; safonau a diogelwch bwyd; rheoliadau

amgylcheddol; amodau gwaith; ac iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd llawer o'r effeithiau yn effeithio ar y boblogaeth gyfan. Ymhlith y poblogaethau agored i niwed roedd; plant/pobl ifanc; y rhai mewn perygl o ddiweithdra; a'r ardaloedd hynny o Gymru sy'n derbyn cyllid sylweddol gan yr UE. Nodwyd effeithiau anuniongyrchol posibl ar lesiant meddwl.

Casgliad: Gallai Brexit gael effaith arwyddocaol ar benderfynyddion iechyd. Dylai'r asesiad Asesu'r Effaith ar Iechyd hysbysu gwaith cynllunio a pholisïau traws-sectoraidd er mwyn sicrhau bod iechyd a llesiant pobl Cymru yn cael eu hystyried ar bob cam. Dylai sefydliadau ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i lunio eu hymateb i Brexit.

**A oes gennym y data cywir i ddatrys y broblem?**

*Helen Hodges, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Caerdydd*

Mae yna tua 6,400 o blant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Y plant hyn, yn ogystal â'r rhai ar y gofrestr amddiffyn plant, yw rhai o'r aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Ond, mae'r gost o ddarparu llety a gwasanaethau eraill ar eu cyfer yn rhoi straen aruthrol ar gyllidebau awdurdodau lleol ar adeg lle maent eisoes yn cael eu gwasgu. Wrth ymchwilio beth y gellid ei wneud yn ddiogel i leihau'r nifer sy'n ymuno â'r system gofal, mae angen deall beth sy'n ysgogi'r cynnydd hwn yn y galw.

Mae'r nifer fach o awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynrychioli her fethodolegol, yn benodol wrth ddefnyddio data cyhoeddedig sy'n cael ei atal. Yn benodol, mae'n cyfyngu'r potensial i ailadrodd mathau o fodelu a wnaed gyda data o Loegr. Fodd bynnag, mewn cyfnod o bwysau digynsail ar adnoddau, lle nad oes gan wasanaethau sydd wedi'u gor-ymestyn y capasiti i

ymyrryd, nes y bydd yn argyfwng, mae'r galw i ganfod atebion yn fwy dybryd nac erioed.

Mae ffactorau sy'n cynnwys amddifadedd, rhieni'n camddefnyddio sylweddau, byw mewn cartref lle mae trais domestig a salwch meddwl rhieni wedi'u cyflwyno fel esboniadau posibl. Mae data a allai hysbysu'r sylfaen dystiolaeth yn cael ei gasglu. Fodd bynnag, mae natur a chyflwyniad y data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, y Cyfrifiad o Blant sy'n Derbyn Gofal a'r Cyfrifiad o Blant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth hefyd yn cyflwyno problemau, gyda'r lefel unigol fel arfer yn cael ei hagregu i lefel awdurdod lleol.

Oherwydd y materion hyn, bydd y sesiwn yn ystyried a ddylem fod yn ystyried defnyddio technegau ystadegol newydd, fel dulliau Bayesaidd wrth i ni chwilio am esboniadau posibl i'r lefel o amrywiaeth yng Nghymru. Oherwydd bod y rhain yn anghyfarwydd i lawer o bobl ym maes y gwyddorau cymdeithasol, bydd pwyslais hefyd ar fanteision edrych ar ddisgyblaethau newydd ar gyfer syniadau methodolegol newydd, gan dynnu ar fy ymchwil doethuriaeth.

**Terfynau Dinas-Ranbarthau: cwestiynu naratifau twf lleol mewn dinasoedd maint canolig yn y DU.**

*David Beel (Prifysgol Metropolitan Manceinion), Martin Jones (Prifysgol Swydd Stafford) ac Ian Rees Jones (Prifysgol Caerdydd)*

Yn y DU a thu hwnt, mae'r cysyniad o leoliaeth a dadansoddiad gofodol o'r 'ddinas-ranbarth' wedi profi adfywiad fel yr unedau gwleidyddol gofodol de-facto ar gyfer datblygiad economaidd (Clarke a Cochrane, 2013). Yn y DU mae hyn wedi'i arwain gan Lywodraeth y DU, wrth iddynt geisio newid y ffyrdd y mae datblygiad economaidd yn cael ei gyflawni er bod y newid hwn yn y broses o

gyflwyniad llywodraethol wedi dechrau o dan Llafur Newydd. Cafodd hyn ei glodfori gan Lywodraeth Glymblaid y DU (Deas, 2013), ac yn dilyn hynny gan y weinyddiaeth Geidwadol sy'n parhau hyd heddiw (Y Blaid Geidwadol, 2015). Mae'r tirlun polisi hwn wedi canfod presenoldeb yng Nghymru hefyd, gyda dwy o'r dinas-ranbarthau yng Nghymru (Caerdydd ac Abertawe) yn sicrhau bargen ddinesig drwy lywodraethau'r DU a Chymru. Er hynny, mae'r broses o lunio bargen ddinesig yn un sy'n ceisio galluogi cyfranogwyr elitaidd i gyflawni twf economaidd yn y ddinas-ranbarth dan sylw. Yn y papur hwn rydym yn dilyn datblygiad Dinas-Ranbarth Bae Abertawe i ystyried y ffyrdd y mae'r model dinas-ranbarth neo-ryddfrydol yn un cyfyngedig. Caiff hyn ei gwestiynu drwy ddeall y raddfa a'r gwahaniaethau ar draws ardal Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, yr adeiladwaith gofodol i'w gyfyngiadau a'i bod, fel canolfan fetropolitan llai o faint sydd ar yr ymylon yn ddaearyddol yn y DU, yn cael anhawster i ymgorffori deinameg model peiriant twf neo-ryddfrydol dinas-ranbarth i fframwaith twf lleol.

**Ymchwil gydweithredol, integreiddio buddiannau a chyflawni polisïau traws-sectoraidd.**

*Elizabeth Woodcock, Ymchwilydd Doethuriaeth, Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, Prifysgol Bangor*

Mae'r papur hwn yn dadlau bod angen cydweithrediad traws-sectoraidd i weithredu polisïau er mwyn mynd i'r afael â heriau cymhleth llesiant a datblygiad cynaliadwy cenedlaethol yng nghyd-destun presennol Brexit. Gall gwybodaeth a enillir drwy ymchwil gyfranogol, gydweithredol gyfuno buddiannau lluosog. Gall sicrhau bod polisi'n cael ei weithredu'n ehangach ar draws sectorau cymdeithas o gymharu â pholisi sy'n seiliedig ar wybodaeth sydd wedi'i hennill heb broses gyfuno o'r fath.

Mae ymchwil gyfranogol i'r amodau ar gyfer cydweithrediad traws-sectoraidd yng Nghymru yn dangos mai'r sylfaen ar gyfer proses i gyfuno buddiannau yw gallu cyfathrebu da. Hynny yw, yr arfer o ddatblygu cyfalaf cymdeithasol ymhlith partneriaid, datblygu gweledigaeth gyffredin ac ystyried safbwyntiau lluosog. Mae'r arferion hyn yn datblygu drwy sgwrs agored, adlewyrchiad ar y sefyllfa bresennol ac ystyriaeth o'r ffyrdd creadigol i gydweithio i newid y sefyllfa.

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf rwyf wedi creu grŵp ymchwil traws-sectoraidd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau seilwaith amgylcheddol a'r trydydd sector, Cyfoeth Naturiol Cymru, tîm Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol. Mae datblygu ein gallu cyfathrebu wedi arwain at weledigaeth gyffredinol sy'n seiliedig ar fuddiannau dwyochrog, atgyfnerthu cyfreithlondeb a rhyng-ddibyniaeth partneriaid ac arwain at barodrwydd i gyfuno adnoddau.

I'r gwrthwyneb, mae diffyg amodau ar gyfer gallu cyfathrebu da mewn Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, y sefydliadau allweddol ar gyfer gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae fy arsylwadau cydamserol o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn dangos ffyrdd o feddwl ar wahân, di-droi, diffyg cyd-ddealltwriaeth ac ystyriaeth gyfyngedig o'r ffyrdd i gydweithio er budd i'r ddwy ochr. Mae'r diffyg dealltwriaeth hwn bod yr egwyddor o integreiddio yn arwain at ddewis amcanion llesiant sy'n seiliedig ar fuddiannau cystadleuol yn y Bwrdd ac nid oes ganddynt lawer o gysylltiad i'r nodau llesiant cenedlaethol, a chydweithrediad gweithredol cyfyngedig gyda chyrff cyhoeddus neu'r trydydd sector i weithredu'r polisi.

Mae ein profiad o ddatblygu polisïau sy'n cyfuno buddiannau lluosog a sefyllfa gyferbyniol gwaith y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus i ddatblygu ei bolisi llesiant yn darparu data manwl i hysbysu ffyrdd Llywodraeth Cymru ei hun o ddatblygu a gweithredu polisïau.

**Clymbleidiau eiriolaeth a newid polisi mewn cyd-destunau datganoledig: Beth sy'n cynrychioli newid effeithiol ar draws systemau gwleidyddol a pholisi?**

*Jonathan Webb, Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus*

Mae'r broses o lunio polisïau yng Nghymru yn aml wedi'i nodweddu gan rwydweithiau polisi bach, natur sy'n dod i'r amlwg ac sy'n gorgyffwrdd â'i his-systemau polisi a'i ddeinameg aml-lefel (McTavish, 2015). Er hyn, ychydig iawn o ddamcaniaethau 'pwrpasol' ar gyfer llunio polisïau a newid polisïau sy'n ystyried nodweddion penodol gwledydd a rhanbarthau bach sydd â chymwyseddau datganoledig.

Er mwyn datblygu ein gwybodaeth am lunio polisïau a newid polisïau mewn cyd-destunau datganoledig, mae'r papur hwn yn defnyddio fersiwn newydd o'r Fframwaith Clymblaid Eiriolaeth. Defnyddir polisi digartrefedd ieuenctid fel astudiaeth achos i ddangos sut mae cyfranogwyr yn defnyddio systemau gwleidyddol datganoledig i ysgogi neu wrthod newid. Gan ddefnyddio cyfweliadau lled-strwythuredig a mabwysiadu dyluniad astudiaeth achos cymharol ar newid polisïau yng nghyd-destunau datganoledig Cymru ac Alberta, mae'r papur hwn yn dangos rôl benodol y gall cyfranogwyr eiriolaeth allweddol ei chyflawni yn ail-fframio problemau polisi ac yn helpu llunwyr polisi i ddatrys cyfyngderau polisi.

Gan gyfuno'r mewnwelediadau hyn gyda'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes, mae'r papur hwn yn dangos rôl benodol y gall cyfranogwyr eiriolaeth pwerus, yn hytrach na chlymbleidiau aelodaeth cyffredinol, ei chyflawni yn siapio'r broses ddatganoledig o lunio polisïau. Mae'r ddeinameg hon yn wahanol i'r cyfrifon presennol o lunio polisïau mewn systemau polisi mwy nad ydynt wedi'u datganoli, gan bwysleisio nodwedd unigryw llunio polisïau datganoledig.

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

WISERD

## Polisi Entrepreneuriaeth yng Nghymru

*Daniel Roberts, Myfyriwr Doethuriaeth yn yr Ysgol Reoli, Prifysgol Abertawe/Swyddog Ymchwil yn Gorwel.*

Un o'r metrigau allweddol ar gyfer llwyddiant datganoli yng Nghymru yw perfformiad yr economi o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael rheolaeth dros ysgogiadau economaidd arwyddocaol ers 1999, ac maent wedi ceisio eu defnyddio i wella'r amgylchedd busnes yng Nghymru. Drwy adolygu dogfennau allweddol strategaeth economaidd a maniffestos pleidiau gwleidyddol, mae'r papur hwn yn ceisio dadansoddi'r dehongliadau o entrepreneuriaeth y mae Llywodraethau Cymru a phleidiau gwleidyddol yng Nghymru wedi'u cynnal o 1999 i 2016, a sut maent wedi siapio'r agenda polisi entrepreneuriaeth. Canfu'r astudiaeth bod pleidiau yng Nghymru a Llywodraethau olynol Cymru wedi cydnabod bod entrepreneuriaeth yn ysgogwr allweddol ar gyfer datblygiad economaidd, a'u bod wedi datblygu polisïau i ddiddymu rhwystrau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol at fenter yng Nghymru. Awgrymir bod llunio polisïau ym maes entrepreneuriaeth yn amrywiol a bod gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol atebion gwahanol ar gyfer mynd i'r afael â thanberfformiad Cymru yn economaidd, er bod tystiolaeth sylweddol hefyd o gytundeb ac agendâu polisi sy'n gorgyffwrdd. Dadleuir bod y polisi entrepreneuriaeth, dros amser ac o dan bwysau economaidd a gwleidyddol gwahanol, wedi newid o ganolbwyntio ar gyfraddau busnesau newydd tuag at ddiffiniad mwy holistaidd o fenter a sgiliau entrepreneuraidd. Mae Cymru yn wynebu newidiadau economaidd a gwleidyddol mawr yn sgîl Brexit a datganoli pwerau economaidd pellach i Lywodraeth Cymru. Mae angen gwell dealltwriaeth o sut mae'r offerynnau polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn effeithio ar yr amgylchedd busnes yng Nghymru, ac a fydd y dehongliadau o ddatblygiad economaidd a pholisi

entrepreneuriaeth ugain mlynedd o ddatganoli yn parhau i fod yn briodol a pherthnasol yn yr hinsawdd wleidyddol ac economaidd newidiol.

**Croeso i Ukania: pryfociad**

*Leighton Andrews, Ysgol Fusnes Caerdydd*

P'un a fydd Brexit yn digwydd ai peidio yn 2019, gyda refferendwm neu heb un, mae eisoes wedi cael effaith arwyddocaol ar normau system San Steffan. Mae'r llywodraeth wedi'i chanfod yn euog o ddirmyg y Senedd, ac mae enghreifftiau sylweddol a pharhaus o dorri'r normau sy'n ategu Cod Gweinidogol y DU. Cytunwyd ar ddatganoli, ac yn arbennig datblygiad Cytundeb Dydd Gwener y Groglith, gyda phleidleisiau poblogaidd a oedd yn tybio aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd ac wedi'i ddeddfu yng nghyd-destun aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Gyda phrif bleidiau gwleidyddol y DU yn cytuno i gyflawni rhyw ffurf o Brexit, yr SNP yn parhau i reoli yn yr Alban, a bleidleisiodd i aros yn yr UE, a Chynulliad Gogledd Iwerddon wedi'i gohirio a llywodraeth bresennol y DU yn ddibynnol ar y DUP sydd o blaid Brexit, mae cyd-destun datganoli wedi newid yn aruthrol. Er bod Cymru wedi pleidleisio i adael, dadleuwyd bod Brexit wedi'i greu yn Lloegr. Yn y cyfamser, mae miloedd o ddinasyddion y DU yn cofrestru i gael cenedligrwydd deuol, naill ai gydag Iwerddon neu aelod-wladwriaethau eraill, gyda miliynau o bobl eraill yn flin eu bod yn colli eu dinasyddiaeth Ewropeaidd. Felly pa heriau sy'n wynebu setliad cyfansoddiadol presennol y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit, a Chymru yn benodol gyda'i maes cyhoeddus arbennig? Yn olaf, mae'r cwestiwn hwn yn archwilio'r canlyniadau cyfansoddiadol posibl ar ôl Brexit. A all Model San Steffan a'r setliadau datganoledig presennol oroesi, a yw setliadau gwleidyddol unoliaethol blaengar Gordon Brown yn parhau i fod yn hyfyw y tu allan i'r Undeb

Ewropeaidd, neu a ddylem fod yn glanhau'r llwch oddi ar gasgliad gwaith Tom Nairn?

**Darparu Tai Fforddiadwy yng Nghymru mewn Cyfnodau Heriol**

*Bob Smith, Yr Ysgol Ddaearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd*

Yn ystod cyfnod o fwy nac ugain mlynedd mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ei phwerau datganoledig a'i pholisïau ar gyfer annog y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yng Nghymru. Mae gan y Weinyddiaeth bresennol darged o 20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y cyfnod 2016-2021 ac, ar yr un pryd, mae'n ceisio sicrhau gwelliannau i ddyluniad, ansawdd ac effeithlonrwydd ynni'r stoc dai. Bydd y papur hwn yn archwilio'r dystiolaeth o ofynion newidiol tai yng Nghymru a'r heriau sy'n wynebu Cymru er mwyn darparu cyflenwad uwch o dai fforddiadwy yn erbyn cefndir o bwysau parhaus ar wariant cyhoeddus i gefnogi tai a chyfyngiadau polisïau llesiant nad ydynt wedi'u datganoli. Cyfres gyfyngedig o offerynnau polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, a gynlluniwyd i annog cyflenwad uwch o dai fforddiadwy. Yn ystod gwanwyn 2018 cyhoeddodd y Gweinidog Tai ac Adfywio ar y pryd adolygiad annibynnol o'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru, y disgwylir i adroddiad gael ei gyflwyno ar hyn erbyn diwedd mis Ebrill eleni. Bydd y papur hwn yn gwerthuso rhai o'r polisïau presennol ac yn adlewyrchu ar syniadau newydd sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru yn ogystal â'r bylchau mewn tystiolaeth a'r capasiti sydd ei angen i fynd i'r afael â'r heriau presennol ac yn y dyfodol o ran cyflawni'r angen am dai fforddiadwy ychwanegol.

**Beth a wnawn heb yr UE? Hybu cydraddoldeb yng Nghymru ar ôl datganoli**

*Rachel Minto ac Alison Parken, Prifysgol Caerdydd*

Mae'r erthygl hon yn archwilio sut mae'r Undeb Ewropeaidd (UE) wedi siapio datblygiad agendâu cydraddoldeb ar lefel ranbarthol, gan ddefnyddio Cymru fel astudiaeth achos. Ers 1997 – yng nghyd-destun aelodaeth y DU o'r UE – mae gan y prosesau datganoli yn y DU brosesau deddfu datganoledig. Er bod Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r polisïau cymdeithasol, mae'r gweinyddiaethau datganoledig wedi datblygu dulliau penodol o ymdrin â chydraddoldeb, sy'n arddangos dimensiwn Ewropeaidd nodedig.

Roedd dechrau'r broses o ddatganoli yn cyd-fynd â newidiadau mawr ar lefel yr UE i lywodraethu cydraddoldeb (Cytuniad Amsterdam 1997), yn benodol cyflwyno 'prif ffrydio rhyw' (er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb rhyw wrth lunio pob polisi) ac ehangu amddiffyniadau gwrthwahaniaethu. Yn y cyd-destun Ewropeaidd hwn, mae'n rhaid i ni archwilio i ddechrau sut yr oedd yr UE yn darparu cyfle i eiriolwyr cydraddoldeb rhyw yng Nghymru gyflwyno dyletswydd unigryw ac eang at gydraddoldeb i'w phrif-ffrydio wrth ddatblygu pob polisi a deddf (Deddf Llywodraeth Cymru 1998, 2006). Yn ail, rydym yn archwilio sut yr oedd hyrwyddwyr cydraddoldeb yng Nghymru yn cymhwyso'r gofyniad Ewropeaidd i brif-ffrydio rhyw yn y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd er mwyn sicrhau bod pob prosiect yn arddangos cydraddoldeb ac, at hynny, sut maent wedi adeiladu ar y gofyniad Ewropeaidd, i gynnwys anabledd ac ethnigrwydd. Mae ein dadansoddiad yn amlygu dylanwad sylweddol yr UE yn siapio ymagwedd ôl-ddatganoledig Cymru i gydraddoldeb. Mae'n dangos sut y defnyddiodd 'sylfaenwyr' datganoli yng Nghymru ddulliau a thrafodaethau Ewropeaiddoli a rhanbartholi er mwyn hybu agenda cyfiawnder cymdeithasol

benodol. O ystyried y cyfleoedd y mae'r lefel Ewropeaidd wedi'u darparu i ysgogwyr cydraddoldeb rhanbarthol, rydym yn dadlau y gallai Brexit atgyfnerthu'r galwadau am ehangu pŵer datganoledig dros bolisi cymdeithasol.

**Erioed wedi bod mor agos, ond cyn belled i ffwrdd ag erioed? Archwilio'r cysyniadau o ymddiriedaeth a thryloywder yng Nghymru**

*Ian Stafford, Prifysgol Caerdydd*

Thema gyffredin yn llawer o'r gwaith academaidd a gynhyrchwyd yn syth ar ôl cyflwyno datganoli yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban ym 1999 oedd potensial trefniadau datganoledig newydd er mwyn cyflwyno math 'newydd o wleidyddiaeth' (Mitchell 2000; McGarvey a Cairney 2008). Mae Bradbury a Mitchell (2001, T.257) yn nodi bod llawer o'r sylw hwn yn canolbwyntio ar symudiad posibl tuag at 'ddiwylliant gwleidyddol elitaidd mwy cydsyniol' sy'n symud i ffwrdd o wleidyddiaeth wrthwynebus San Steffan, a'r addewid o arloesedd polisi a fyddai'n cael ei gyflawni 'drwy arddull mwy agored a chydweithredol o wneud penderfyniadau'. Yng nghyd-destun Cymru, cafodd y themâu hyn eu hamlygu'n benodol drwy amlygrwydd y drafodaeth ar 'gynwysoldeb' yn y cyd-destun cyn ac ar ôl datganoli, a rôl drawsnewidiol bosibl datganoli mewn cysylltiad â chymdeithas sifil yng Nghymru (Chaney a Fevre 2001; Day, Dunkerley a Thompson 2000). Er bod y graddau yr oedd rhethreg 'gwleidyddiaeth newydd' yn cael ei chyflawni mewn gwirionedd wedi'i herio'n sylweddol yn ystod blynyddoedd cynnar datganoli, mae ffocws ar bartneriaeth a chydweithio wedi parhau i ddiffinio gwaith ymchwil ar greu polisïau a phenderfyniadau yn y cyd-destun Cymreig (Chaney a Fevre 2001; Entwistle 2006; Bristow et al. 2009; Entwistle et al. 2014; Entwistle et al. 2016).

Mae'r papur yn archwilio'r canfyddiadau o lunio penderfyniadau a pholisïau yng Nghymru gan gyfranogwyr Cymdeithas Sifil bron i ddau ddegawd ar ôl cyflwyno datganoli. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar ddau gwestiwn cyd-gysylltiedig. Yn gyntaf, sut y gallwn nodweddu datblygiad a rôl ymddiriedaeth wrth lunio polisïau a phenderfyniadau yng Nghymru? Yn ail, beth yw rôl dulliau tryloywder ffurfiol ac anffurfiol wrth atgyfnerthu'r lefelau ymddiriedaeth hyn? Mae'r papur hwn yn tynnu ar un ar hugain o gyfweliadau lled-strwuthuredig a gynhaliwyd ddiwedd 2017 gyda gwahanol fathau o gyfranogwyr polisi, gan gynnwys llywodraeth leol, y cyfryngau, grwpiau diddordeb a gwleidyddion, ac o ystod eang o feysydd polisi. Mae'r papur yn darparu trosolwg o'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o elfen astudiaethau achos Cymru prosiect ymchwil cymharol ehangach, 'Meithrin Ymddiriedaeth? Sefydliadau a rhyngweithiadau llywodraethiant aml-lefel yn y DU, yr Almaen a Ffrainc', rhan o Ganolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD.